Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 130

**Amseru:** Arferol

**Teitl: Estyn y cytundeb ar gyfer yr arolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:** Rhoddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gytundeb i Heddlu Dyfed-Powys ym mis Ebrill 2017 ar gyfer cynnal arolygon bodlonrwydd dioddefwyr. Roedd y cytundeb am 3 blynedd i gychwyn, gyda 2 ddewis i'w estyn am 12 mis yr un. Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 4 Gorffennaf 2019, cytunwyd y dylid dilyn sgyrsiau ar lefel Cymru gyfan er mwyn cynnig proses ar gyfer cynnal arolygon bodlonrwydd dioddefwyr yn y dyfodol. Bydd hyn yn caniatáu ymagwedd gyson, ynghyd â gwybodaeth am berfformiad y gellir ei chymharu a'r cyfle i rannu dysgu ar draws y rhanbarth. Yn unol â hyn, bydd bodlonrwydd dioddefwyr yn eitem ar agenda cyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Medi 2019.

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu hamddiffyn tra bod trafodaethau Cymru gyfan yn cael eu cynnal, a darparu cysondeb i mewn i'r tymor CHTh newydd, sy'n cychwyn ym mis Mai 2020, cynghorir y dylai'r CHTh alw ar yr estyniad cyntaf ar gyfer y cytundeb cyntaf y sonnir amdano uchod, gan estyn y cytundeb hyd 31/03/2021. Cyfanswm gwerth blynyddol y cytundeb ar gyfer darpariaeth gwasanaeth yw £20,000. Ni fydd cwmpas ar gyfer cynyddu hyn yn ystod y cyfnod estyniad. Bydd y telerau a'r amodau sy'n berthnasol ar gyfer cyfnod yr estyniad yr un fath â'r rhai sydd mewn grym ar gyfer y cytundeb cyfredol.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn cymeradwyo estyn cyfnod y trefniant yn ôl y galw ar gyfer y cytundeb bodlonrwydd dioddefwyr 12 mis arall tan 31/3/2021.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 4/9/2019